Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 3ydd o Ragfyr 2020.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans – Prenteg, Richard Parry – Bryncir, John Jones – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Amanda N Owen – Golan, Huw Pritchard Manon Jones Evans – Pentrefelin, Dafydd Thomas, Iddon Edwards – Penmorfa.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Edward Evans, Delyth Evans, Clifford Williams, Dylan Pritchard, Gwenno Emlyn Huws.

3 **Ddim yn bresennol** - neb.

4 **Datgan buddiant** – neb.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 1/10/20, 5/11/20. Iddon Edwards yn datgan eu cywirdeb a Gwilym Evans yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Materion Priffyrdd mis Hydref

Ffordd Cwmystradllyn - Prenteg - mae'r gwaith o gryfhau'r ochr wedi ei gwblhau a'r gwaith amgylcheddol parthed y mochyn daear wedi ei gwblhau am y tro yn unol â'r drwydded. Tra bod y gorchymyn ffordd ar gau mewn grym, bwriedir rhoi sylw i'r gridiau gwartheg.

Glaswellt tu allan i wal Mynwent Bethel - cyflwr y glaswellt o safbwynt canllawiau'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd o fewn goddefiad risg.

Materion Adran Priffyrdd mis Tachwedd – heb dderbyn ateb.

Goryrru rhwng Fferm Plymouth a Mynydd Du Pentrefelin - yn ddiweddar mae Adran Gwasanaeth Traffig Cyngor Gwynedd wedi cyflwyno mesuriadau i wella diogelwch ar y rhan yma o'r ffordd. O ganlyniad i sylwadau'r Cyngor Cymuned, bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal adolygiad o effaith y mesuriadau newydd a hefyd rhoi ystyried i'r cais i gyfyngu'r cyflymder.

Ffordd Mynwent Prenteg – heb dderbyn ateb gan berchnogion Fron Oleu.

Polion adlewyrchu Garndolbenmaen - Adran Briffyrdd am eu hail osod.

Cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth – heb dderbyn ateb.

Mainc Mynwent Prenteg – derbyniwyd cadarnhad y bydd y teulu yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r fainc hyd y gallent.

Cae Chwarae Penmorfa – Clerc i gysylltu gyda Swyddfa Cofrestru Tir. Iddon Edwards yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

7 **Mynwentydd**

Mainc Mynwent Bethel

Derbyniwyd prisiau gan 2 gwmni. Cynnyrch y trydydd cwmni o wneuthuriad pren meddal fyddai'n anaddas i'r Fynwent. Penderfynwyd trafod mis nesaf.

Cais i osod carreg fedd ym Mynwent Prenteg

Derbyniwyd cais i osod carreg fedd ychwanegol tu allan i fedd yn y Fynwent. Penderfynwyd nad oedd y cais yn cydymffurfio a'r Rheolau Claddu a bod rhaid i'r garreg cael ei osod o fewn yr ymylfeini presennol. Amanda N Owen yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Dim i'w adrodd.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Golan

Man parcio uwchlaw Clennenau – dŵr yn codi o'r tarmac ac yn cronni o dan y bont. Mae hen bibell Bwrdd Dŵr gerllaw, felly mae'n bosib mae hwn sy'n achosi'r broblem. Gall bod yn beryg os yw'n rhewi.

Bryncir

Chwarel Bryncir – dŵr a thywod yn llifo lawr y pentref.

Gofyn i Gwmni Jones Brothers gadw arwyneb gweddol ar y ffordd yn Llecheiddior Uchaf.

Cysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.

10 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd – rhybudd cau ffordd III Cwm Pennant – rhannwyd 9/11/2020.
Rhybudd cau ffordd gyferbyn a Hendre Cennin Uchaf, Cennin - rhannwyd 18/11/2020.
Sylfaen Drethiannol Cymunedau Gwynedd 2021 – 2022.
Ateb Cyngor Gwynedd at Gyngor Tref Nefyn.

Gohebiaeth ychwanegol

a Unllais Cymru – Dogfen ymgynghori: Canllawiau statudol drafft – perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau.

b Plaid Cymru Arfon – Y Comisiwn Annibyniaeth 4/12/2020 am 7 y.h.

11 **Cynllunio**

Rhestrau – 6/11, 13/11, 20/11/2020.

Ceisiadau Cynllunio C20/0840/35/LL Gosod 5 uned gwyliau, gosod system trin carffosiaeth a gwaith cysylltiol. Llwyn Mafon Isaf, Golan. Dyddiad cau 20/11/2020. Dim gwrthwynebiad.

12 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: Canolfan Gymdeithasol Golan, Neuadd Goffa Penmorfa. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.33
Yr Wylan	=	£ 16.00

Ychwanegwyd

Dewi Williams = £ 2107.20

Derbyniadau

Pritchard & Griffiths = £420.00
Balansau Cyfrifon: Cadw £16,843.47 Cyfredol £20,577.57

13 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

Wasg - Cyfarchion y Tymor, Cais Cynllunio

Gwefan – Cofnodion, Hysbyseb archwiliad, Adroddiad Blynyddol.